| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | PWYLLGOR PENSIYNAU |
| DYDDIAD | 2 RHAGFYR 2010 |
| TEITL | RHESYMOLI CRONFEYDD PENSIWN YNG NGHYMRU |
| AWDUR | DILWYN WILLIAMS<br>CYFARWYDDWR STRATEGOL ADNODDAU |

1 Adroddais i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2009 fod Trysoryddion y Cronfeydd Pensiwn yng Nghymru wedi ystyried a fyddai yna fanteision i gael mwy o gydweithio neu uno cronfeydd yng Nghymru.

2 Gan nad oedd yna lawer o dystiolaeth i roddi sylfaen i benderfyniad, penderfynodd y pwyllgor y byddai'n cymryd rhan mewn ymgyrch ar y cyd gyda chronfeydd pensiwn eraill yng Nghymru i gomisiynu astudiaeth i sefydlu a fyddai yna fanteision ariannol o gael llai o gronfeydd yng Nghymru.

3 Ym mis Mawrth eleni, bu i Is Grŵp Pensiynau Cymdeithas Trysoryddion Cymru gomisiynu'r fath astudiaeth gan Price Waterhouse Coopers (PwC).

4 Fe gwblhawyd yr astudiaeth ac 'rydym yn aros am yr adroddiad terfynol. Bydd yr adroddiad yn awgrymu fod yna le i greu mwy o arbedion effeithlonrwydd ynghyd a chysoni safonau gwasanaeth drwy leihau'r niferoedd cronfeydd yng Nghymru.

5 Ystyrir fod yr arbedion posibl ddigon sylweddol i gyfiawnhau gwaith mwy manwl.

6 'Roedd yr astudiaeth yn cydnabod y byddai unrhyw newid yn cymryd amser i'w weithredu, ac y byddai unrhyw newid yn medru bod yn gymhleth ac y byddai yna gostau fyddai'n ad-dalu eu hunain dros gyfnod yn ddibynnol ar y dewis a wneir. Yn ychwanegol, gan mai dim ond bob tair blynedd y byddwn yn newid cyfraniadau cyflogwyr (ar adeg y prisiad bob tair blynedd) y cynharaf y byddai unrhyw arbedion ar gael hyd yn oed o weithredu'n syth fyddai 2014/2015.

7 Nodwyd y byddai materion rheolaethol hefyd yn fater sylweddol yng nghyswllt unrhyw waith pellach i'w gyflawni.

8 Fodd bynnag mae'r astudiaeth yn gosod sylfaen gref i awgrymu y dylid cyflawni mwy o waith manwl ac mae'r Trysoryddion Cronfeydd Pensiwn nawr yn ystyried y dylid gwneud darn o waith manylach i sefydlu achos busnes amlinellol ar sail lleihau'r nifer cronfeydd pensiwn Cymreig.

9 Yr amcan yw sefydlu'r model delfrydol ar gyfer Cymru - sef un Gronfa neu 2 neu 3 neu 4 o gronfeydd Is Rhanbarthol.

10 Y tro hwn bydd yr Is Grŵp Pensiynau Trysoryddion Cymru yn mynd a'r gwaith ymlaen gyda chymorth priodol. Mae'r grŵp o'r farn fod hwn yn ddarn o waith pwysig i sefydlu manylder yr achos "prima facie" i resymoli'r nifer cronfeydd yng Nghymru a fyddai'n gwella effeithlonrwydd a chysoni safonau gwasanaeth.

11 Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau nodi casgliadau'r adolygiad ac i gytuno i barhau i gymryd rhan yn y gwaith pellach sydd i'w gyflawni.